

Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd Supporting Businesses in Gwynedd



Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.02.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19>

RECRIWTIO: Ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd – mwy o ddyddiadau 2023!

Y llynedd cafodd dros 200 o swyddi gwag eu llenwi diolch i ffeiriau swyddi Gwaith Gwynedd!

Mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, bydd Gwaith Gwynedd yn cynnal ffeiriau swyddi yn y lleoliadau canlynol yn ystod yr wythnosau nesaf:

- Byw'n Iach Glan Wnion, Dolgellau – 15 Mawrth 2023
- Storiel, Bangor – 23 Mawrth 2023
- Y Ganolfan, Porthmadog – 19 Ebrill 2023

- Byw'n Iach Bro Dysynni, Tywyn – 26 Ebrill 2023
- Byw'n Iach Pafiliwn, Abermaw – 4 Mai 2023

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar: 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch hysbysebu eich swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

<https://www.facebook.com/groups/1169426113501265>

DIGWYDDIAD: Gweminar Busnes@gwynedd.llyw.cymru – Defnyddio Technoleg ar gyfer Effeithlonrwydd Busnes, 28 Chwefror 2023

Bydd Busnes@gwynedd.llyw.cymru yn cynnal gweminar ar gyfer BBaChau, wedi'u lleoli yng Ngwynedd, ar 28 Chwefror 2023 (9:30am-11:00am) fydd yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio technoleg ar gyfer effeithlonrwydd busnes a chynyddu refeniw. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

<https://bit.ly/3YuiCd2>

IECHYD A DIOGELWCH: Canllawiau ar weithio mewn tywydd oer a gaeafol

Gellir gweld y canllawiau a'r cyngor diweddaraf gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) ar sut i ddiogelu gweithwyr mewn tymheredd isel ar:

<https://www.hse.gov.uk/temperature/index.htm>

DIGWYDDIAD: Adeiladu Fframwaith ar gyfer Arloesi mewn Iechyd a Gwyddor

Bywyd ar draws y Moroedd Gwyddelig a Cheltaidd 28 Chwefror 2023

Mae CALIN (Rhwydwaith Geltaidd Arloesi Gwyddor Bywyd Uwch) yn cysylltu busnes, y byd academaidd a gofal iechyd gydag arbenigwyr o chwe phrifysgol flaenllaw ledled Iwerddon a Chymru. Cynhelir digwyddiad rhithwir i archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer Gwyddorau Iechyd a Bywyd ar 28 Chwefror 2023 (9:00am-2:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<http://bit.ly/3RTEWdY>

HYFFORDDIANT: Cwrs Ar-lein 10,000 o Ferched Goldman Sachs

Mae 10,000 o Ferched Goldman Sachs Ar-lein yn rhaglen addysg fusnes ymarferol, am ddim, sydd ar gael i bob merch ledled y byd. Mae'r 10 cwrs yn cwmpasu agweddau gwahanol ar fusnes, o arddull arweinyddiaeth a strwythur rheoli, i ddyrannu adnoddau ac effeithlonrwydd gweithredol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

<http://bit.ly/3YOKOYy>

DIGWYDDIAD: BT Trawsnewid Dyfodol Cymru 20 Ebrill 2023

Bydd y digwyddiad yma, i'w gynnal ym Mharc Gwyddoniaeth M-SParc Menai, Gaerwen LL60 6AG ar 20 Ebrill 2023 (9:30am-1:00pm), yn gyfle i glywed gan BT am y cymorth allant ei gynnig i drawsnewid busnes ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau cyhoeddus, 5G a'r weledigaeth ddigidol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

<https://trawsnewiddyfodolcymrunorth.splashthat.eu/>

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19>

<https://twitter.com/BusnesGwynedd>

Rhwydwaith Busnes Gwynedd

<https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan>

<https://twitter.com/gwyneddbusnes>

Busnes Cymru

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/>

https://twitter.com/_busnescymru

Busnes@llandrillomenai

<https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts>

<https://twitter.com/busnesLLM>

FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

Croeso Cymru

<https://twitter.com/croesocymrubus>

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf

<https://bit.ly/3kIWPAU>

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:

E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru